Yr Anffyddiwr Rhonc

(gonestrwydd / gosod esiampl)

Roedd teulu Nicky yn deulu cefnog iawn. Roedd ei fam yn faer Kensington a Chelsea a'i dad yn fargyfreithiwr llewyrchus. Doedd yr un o'r ddau yn mynd i gapel nac eglwys. Anfonwyd Nicky i ysgol fonedd Eton. Tra oedd yn ddisgybl yn yr ysgol enwog honno doedd ganddo ddim i'w ddweud wrth Dduw. Yn wir doedd o ddim yn credu bod Duw yn bod. Byddai'n gwneud sbort am ben ei gyd-ddisgyblion oedd yn astudio addysg grefyddol fel pwnc yn yr ysgol.

Yn ei farn ef roedden nhw'n gwastraffu eu hamser. Gwell o lawer fyddai iddyn nhw astudio pynciau eraill oedd yn llawer mwy diddorol ond hefyd yn fwy perthnasol i fywyd bob dydd. O dro i dro byddai Nicky'n dadlau'n ffyrnig â rhai o athrawon yr ysgol. Pan adawodd yr ysgol roedd Nicky Gumbel yn anffyddiwr rhonc.

Ar ôl gadael Eton aeth i Brifysgol Rhydychen i astudio'r gyfraith. Yn ei amser hamdden penderfynodd y buasai'n darllen y Testament Newydd drwyddo er mwyn ei alluogi i brofi unwaith ac am byth fod ei gynnwys yn amherthnasol ac yn anghywir. Ar ôl bod wrthi'n darllen rhannau o'r Testament Newydd am dair noson dechreuodd Nicky newid ei feddwl.

"Mae'r llyfr hwn yn hynod o ddiddorol. Mae ei neges yn berthnasol ac mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn gwneud synnwyr." Doedd Nicky erioed wedi darllen y Beibl fel hyn o'r blaen. Doedd o ddim wedi clywed y Beibl yn cael ei ddarllen yn y capel a'r eglwys a phan fyddai'n cael ei ddarllen yn y gwasanaeth boreol yn Eton doedd Nicky byth yn gwrando. Crwydrai ei feddwl o'r naill beth i'r llall.

Erbyn hyn roedd ei ffrindiau yn y Brifysgol yn gwybod fod Nicky yn anffyddiwr. Un bore ar ôl i'r ddarlith gyntaf ddirwyn i ben, dros baned, cyhoeddodd Nicky wrth ei ffrindiau ei fod wedi bod yn darllen y Beibl.

Dechreuodd rhai o'i ffrindiau chwerthin dros y lle. "Nicky'n darllen y Beibl! Oes gen ti fwy o jôcs i ni," gofynnodd ei ffrind gorau. "Ydw, mi ydw i'n darllen y Beibl ac mae'n rhaid i mi ddweud 'mod i'n cael blas mawr arno. Mae'r Beibl fel petai o'n siarad efo mi," meddai. Roedd ei ffrindiau gorau wedi rhyfeddu. Nicky'n darllen ac yn astudio'r Beibl! Anhygoel!

Bu'n gweithio fel cyfreithiwr am ddeng mlynedd cyn iddo

gael ei ordeinio'n offeiriad yn yr Eglwys Anglicanaidd. Yn ystod ei gyfnod fel curad yn Eglwys y Drindod Sanctaidd ar gyrion Knightsbridge bu'n rhedeg cwrs o'r enw 'Alpha' ar gyfer ei gynulleidfa. Cwrs syml oedd hwn i bobl oedd yn credu, fel yr oedd ef ei hun yn credu unwaith, fod Cristnogaeth yn ddiflas ac yn amherthnasol. Bu'n llwyddiant mawr. Ailsgrifennodd y cwrs 'Alpha' ar gyfer cynulleidfa ehangach o lawer na'i gynulleidfa ef yn Eglwys y Drindod Sanctaidd.

Erbyn hyn mae'r cwrs 'Alpha' yn cael ei ddefnyddio mewn sawl gwlad ar hyd a lled y byd a hynny gan wahanol fathau o eglwysi. Mae llyfrau, tapiau, papur newydd a chynadleddau yn eu cynnal bob blwyddyn. Mae'r cwrs 'Alpha' hefyd ar gael yn Gymraeg.

Yr anffyddiwr rhonc, felly, yn sôn am Iesu!

Adnod: "... tywyllwch oeddech chi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd." Effesiaid 5:8

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am ddefnyddio pobl sy'n dy amau i gyflwyno dy neges i'r byd. Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n credu bod darllen y Beibl ynddo'i hun yn ddigon i drawsnewid pobl?
- Beth ydi gwerth cwrs fel cwrs 'Alpha'?